# Cronfa Bensiwn Dyfed

## Llythyr Newyddion Blynyddol

Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol
Rhifyn 24, 2023

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# Cynnwys



Prisio Teirblynyddol ..... 2
Buddsoddiadau'r Gronfa ..... 3
  Buddsoddi Cyfrifol ..... 3
  Gwerth a Pherfformiad y Gronfa ..... 4
Gweinyddu'r Gronfa ..... 5
  Cyflwyniad ..... 5
  Menter Twyll Genedlaethol ..... 5
  Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2014 ..... 5
  Buddion Partneriaid sy'n Cyd-fyw ..... 6
  Cyfraddau Cyfrannu y Gweithiwr ..... 6
  Diogeliadau Tanategu Statudol ..... 7
  Rheol 85 ..... 8
  Gwerthuso Swyddi a Statws Unffurf ..... 8
  Diwygio Treth ..... 8
  Dyddiadau Talu Pensiynwr ..... 9
  Fy Mhensiwn Ar-lein ..... 9
Cysylltu â'r Gronfa ..... 10

# Prisio Teirblynyddol

Archwiliad iechyd yw'r prisiad actiwaraidd a gynhelir gan y Gronfa bob tair blynedd. Diben y prisiad actiwaraidd yw pennu:

- Y gost ddisgwyliedig o ddarparu'r buddion a gronnwyd gan aelodau ar y dyddiad prisio (y "rhwymedigaethau") a chymharu hyn yn erbyn yr arian a gaiff ei ddal gan y Gronfa (yr "asedau”).
- Y cyfraniadau sydd eu hangen i dalu am gost y buddion y bydd aelodau gweithredol yn eu cronni yn y dyfodol a chostau eraill a ysgwyddir wrth redeg y Gronfa.
- Cynllun priodol ar gyfer sicrhau lefel ariannu solfedd o 100% **os** oes gan y Gronfa lai o asedau na rhwymedigaethau. Bydd y cynllun hwn yn cwmpasu'r symiau y bydd angen eu talu a'r amserlen ar gyfer eu talu.

Dangosir canlyniadau prisio 2022 a'r gymhariaeth â 2019 isod. Braf yw nodi bod lefel y cyllid wedi parhau mewn gwarged sy'n golygu bod asedau'r Gronfa yn fwy na'i rhwymedigaethau ar y dyddiad prisio, 31 Mawrth 2022.




Lluniwyd Datganiad Strategaeth Ariannu, yn dilyn ymgynghoriad â rhanddeiliaid, a bydd adolygiad dyrannu asedau strategol yn cael ei gynnal yn ystod 2023.

# Buddsoddiadau'r Gronfa

## Buddsoddi Cyfrifol

Yn ystod y flwyddyn, cymeradwyodd y Pwyllgor Pensiwn broses ailstrwythuro ecwiti a fydd yn dyrannu 5% o'r Gronfa (tua £160m) i'r Gronfa Ecwiti Cynaliadwy gyda Phartneriaeth Pensiwn Cymru. Mae'r buddsoddiad hwn i'w ariannu drwy werthu daliadau ecwiti rhanbarthol presennol sydd ag arddwyseddau carbon uwch fel arfer.

Bydd y buddsoddiad yn y Gronfa Ecwiti Cynaliadwy yn lleihau ôl troed carbon y Gronfa ymhellach, nid yw'n cynnwys rhai categorïau o fuddsoddiadau ac mae'n cyd-fynd â'r uchelgais sero-net erbyn 2040.

Mae gan y pum rheolwr cronfa sylfaenol ddulliau buddsoddi ategol (gwahanol), ac mae pob un o'r pum rheolwr yn cyd-fynd â'r uchelgais sero-net ac wedi llofnodi'r Egwyddorion Buddsoddi Cyfrifol (PRI). Mae PRI yn fenter buddsoddwyr mewn partneriaeth â Menter Cyllid UNEP a Chompact Byd-eang y Cenhedloedd Unedig.


Rhagwelir y bydd y broses trosglwyddo ecwiti yn cael ei chwblhau yng ngwanwyn 2023 a dyma gam nesaf y daith gyfuno gyda Phartneriaeth Pensiwn Cymru.

Rhagwelir hefyd y bydd y Gronfa yn gosod ei buddsoddiadau cyntaf mewn asedau seilwaith yn ystod y flwyddyn nesaf, drwy Bartneriaeth Pensiwn Cymru hefyd. Mae gan y Gronfa ddyraniad asedau strategol o 5% i isadeiledd.

Fel y nodwyd yng nghylchlythyr y llynedd, mae cynnydd yn parhau i gael ei wneud o ran gosod buddsoddiadau ychwanegol i Schroders (eiddo) a Chronfa Incwm Amgen Strategol BlackRock (asedau amgen). Dyma ad-drefnu strategol sylweddol a oedd yn lleihau daliadau ecwiti rhanbarthol carbon uwch y Gronfa ac yn cynyddu'r dyraniad i fuddsoddiadau sy'n talu difidend, a oedd yn gwella'r llif arian a gynhyrchir gan y portffolio. Roedd hyn yn allweddol i gynorthwyo gofynion llif arian y Gronfa gan fod cynnydd o 10.1% mewn pensiynau yn cael ei gymhwyso ym mis Ebrill 2023.

## Gwerth a Pherfformiad y Gronfa

Ers prisiad teirblynyddol 2022 mae wedi bod yn flwyddyn heriol i'r Gronfa oherwydd cyflyrau'r farchnad. Ar y cyfan, mae gostyngiad o 2% wedi bod yng ngwerth asedau'r Gronfa ar y farchnad, ac Incwm Sefydlog ac Eiddo yw'r prif ddosbarthiadau asedau yr effeithir arnynt.




| | 31 Mawrth 2022 (£miliwn) | Cronfa (%) | 28 Chwefror 2023 (£miliwn) | Cronfa (%) |
|---|---|---|---|---|
| Ecwitïau Rhanbarthol | 1,361 | 42 | 1,376 | 43 |
| Ecwitïau Byd-eang | 988 | 30 | 980 | 31 |
| Incwm Sefydlog | 279 | 9 | 241 | 8 |
| Eiddo | 458 | 14 | 426 | 13 |
| Asedau amgen (SAIF) | 121 | 4 | 120 | 4 |
| Arian | 25 | 1 | 23 | 1 |
| **CYFANSWM** | **3,232** | **100** | **3,166** | **100** |

Er bod perfformiad absoliwt dros y flwyddyn ddiwethaf yn -0.44%, mae'r Gronfa wedi perfformio'n well na'r meincnod dros y cyfnodau 1, 3, 5 a 10 mlynedd, yn y drefn honno.

| | 1 flwyddyn hyd at Chwefror 2023 % | 3 blynedd hyd at Chwefror 2023 % | 5 mlynedd hyd at Chwefror 2023 % | 10 mlynedd hyd at Chwefror 2023 % |
|---|---|---|---|---|
| Perfformiad y Gronfa | -0.44 | 6.37 | 5.25 | 7.85 |
| Meincnod y Gronfa | -1.70 | 5.91 | 4.98 | 7.59 |
| (Tanberfformio)/ Perfformio'n well | 1.26 | 0.46 | 0.27 | 0.26 |

# Gweinyddu'r Gronfa

## Cyflwyniad

Mae wedi bod yn flwyddyn brysur unwaith eto wrth i ni barhau i addasu'r ffordd yr ydym yn gweithio er mwyn ymateb i'r heriau a wynebir. Roedd hyn yn ychwanegol i fod Cronfa Bensiwn Dyfed yn parhau i weithredu fel yr awdurdod arweiniol wrth weithio mewn partneriaeth â chyd-gronfeydd pensiwn yng Nghymru.

Yn unol â Rheoliadau'r Cynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol mae'r gronfa bensiwn wedi llunio strategaeth weinyddu. Amcan y strategaeth yw rhoi diffiniad clir o rolau a chyfrifoldebau Cronfa Bensiwn Dyfed a'r cyflogwyr sy'n rhan ohoni o dan y Rheoliadau. I ategu'r strategaeth weinyddu mae'r gronfa wedi llunio Siarter Cwsmeriaid, sy'n amlinellu ein hymrwymiad i bob rhanddeiliad ynghyd â chyfarwyddeb Safonau Gwasanaeth sy'n amlinellu amserau prosesu ein gweithdrefnau gweinyddu. Rydym yn parhau i werthuso meysydd i'w gwella ac mae pob croeso i aelodau'r cynllun roi adborth.

## Menter Twyll Genedlaethol

Mae'r Gronfa yn dal i fod yn rhan o'r fenter genedlaethol yn erbyn twyll, a drefnir gan y Comisiwn Archwilio, lle mae'r data a ddarperir yn cynnwys manylion Pensiwn Galwedigaethol a manylion y Gyflogres. Caiff gwybodaeth o'r fath ei chymharu â data cyrff cyhoeddus eraill, sy'n helpu i sicrhau:

- Bod y defnydd gorau'n cael ei wneud o arian cyhoeddus
- Ni thelir pensiwn i berson sydd wedi marw, a
- Sicrhau bod incwm Pensiwn Galwedigaethol yn cael ei ddatgan gan hawlwyr Budd-dal Tai

## Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2014

Rwy'n siŵr eich bod chi bellach yn gyfarwydd â'r Cynllun Enillion Gyrfa Cyfartalog wedi eu Hailbrisio (CARE) a gafodd ei gyflwyno o 1 Ebrill 2014 ymlaen.

Dengys y tabl isod brif ddarpariaethau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2014 ar gyfer yr aelodau **<u>O</u>** 1 Ebrill 2014 ymlaen.

| | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2014 |
|---|---|
| Sail y Pensiwn | Enillion Gyrfa Cyfartalog wedi eu Hailbrisio (CARE) |
| Cyfradd gronni | 1/49fed |
| Cyfradd Ailbrisio | Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) |

| | |
|---|---|
| Oedran Pensiwn Arferol | Yn cyfateb i Oedran Derbyn Pensiwn gan y Wladwriaeth (Isafswm Oed 65) |
| Hyblygrwydd o ran Cyfraniadau | Gall aelodau ddewis talu cyfraniadau o 50% i dderbyn 50% o'r buddion pensiwn |
| Diffiniad Tâl Pensiynadwy | Wedi ei seilio ar yr union dâl pensiynadwy, ac i gynnwys goramser nad yw'n gytundebol ac oriau ychwanegol yn achos staff rhan amser |
| Cyfnod Breinio: | Mae'r cyfnod breinio wedi cynyddu o 3 mis i 2 flynedd |

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i wefan Cronfa Bensiwn Dyfed sydd wedi cael ei diweddaru i adlewyrchu'r holl newidiadau rheoleiddiol ynghyd â thaflenni ffeithiau a nodiadau cyfarwyddo diwygiedig.

## Buddion Partneriaid sy'n Cyd-fyw

O 1 Ebrill 2008 ymlaen, mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol nid yn unig yn rhoi pensiwn i Briod neu i Bartner Sifil, ond hefyd i bartner enwebedig sy'n cyd-fyw. Pennir amodau penodol gan Reoliad fel a ganlyn:

- Gall unigolyn A briodi neu ffurfio partneriaeth sifil gyda B
- Mae unigolion A a B yn byw gyda'i gilydd fel pe baent yn ŵr a gwraig neu fel pe baent yn bartneriaid sifil
- Nid yw A na B yn byw gyda thrydydd person fel pe baent yn ŵr a gwraig neu fel pe baent yn bartneriaid sifil, a
- Naill ai mae B yn ddibynnol yn ariannol ar A neu mae A a B yn dibynnu ar ei gilydd

Mae rheolau'r Cynllun yn nodi y bydd pensiwn goroeswyr yn daladwy'n awtomatig i bartneriaid sy'n cyd-fyw heb fod angen i'r aelodau o'r cynllun fod wedi cwblhau ffurflen yn eu henwebu nhw i gael pensiwn goroeswr.

Gellir cael rhagor o wybodaeth a meini prawf cymhwyso drwy un ai gysylltu â'r adain bensiynau neu drwy'r wefan.

## Cyfraddau Cyfrannu y Gweithiwr

Mae Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2014 wedi diwygio'r dull o asesu eich cyfradd gyfrannu o dâl pensiynadwy 'cyfwerth ag amser llawn' i'ch 'tâl pensiynadwy **gwirioneddol**'. Mae cyfraniadau pensiwn hefyd yn daladwy ar oramser. Cyfrifoldeb y Cyflogwr yw pennu cyfradd enillion a chyfraniadau'r aelodau, ynghyd â rhoi gwybod i'r Gronfa am hyn. Lle bo gan aelod fwy nag un swydd gyda Chyflogwr, bydd angen asesiad ar wahân ar gyfer pob swydd. Mae'r tabl yn nodi'r bandiau enillion a'r cyfraddau cyfrannu sy'n berthnasol ar gyfer 2023/24.

**Tabl Cyfraniadau Aelodau o 1 Ebrill 2023**

| Tabl Cyfraniadau ar gyfer 2023/24 | | | |
|---|---|---|---|
| **Band** | **Cyflog Pensiynadwy Gwirioneddol ar gyfer swydd** | **Y Gyfradd Gyfrannu ar gyfer y Swydd honno** | |
| | | **Prif adran** | **Adran 50/50** |
| 1 | Hyd at £16,500 | 5.5% | 2.75% |
| 2 | £16,501 i £25,900 | 5.8% | 2.9% |
| 3 | £25,901 i £42,100 | 6.5% | 3.25% |
| 4 | £42,101 i £53,300 | 6.8% | 3.4% |
| 5 | £53,301 i £74,700 | 8.5% | 4.25% |
| 6 | £74,701 i £105,900 | 9.9% | 4.95% |
| 7 | £105,901 i £124,800 | 10.5% | 5.25% |
| 8 | £124,801 i £187,200 | 11.4% | 5.7% |
| 9 | £187,201 neu fwy | 12.5% | 6.25% |

## Diogeliadau Tanategu Statudol

Mae diogeliadau ar gael os ydych yn nesáu at oedran ymddeol, er mwyn sicrhau y byddwch yn cael pensiwn sy'n gyfwerth o leiaf â'r hyn y byddech wedi'i gael pe na bai'r cynllun wedi newid ar 1 Ebrill 2014. Gelwir y math hwn o ddiogeliad yn 'tanategu'.

Mae hyn yn berthnasol i chi os oeddech:

- yn talu i mewn i'r Cynllun ar 31 Mawrth 2012, ac
- o fewn 10 mlynedd i'ch Oedran Pensiwn Arferol ar 1 Ebrill 2012,
- os nad ydych wedi cael bwlch anghymwysol o fwy na 5 mlynedd yn eich gwasanaeth,
- os nad ydych wedi tynnu allan unrhyw fuddion o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol cyn eich Oedran Pensiwn Arferol ac
- eich bod yn gadael â hawl i gael buddion yn syth.

Bydd yr Adain Bensiynau yn cynnal y cyfrifiad tanategu'n awtomatig pan fyddwch yn gadael y Cynllun. Bydd buddion pensiwn o ganlyniad i Ddyfarniad 'McCloud' yn cael eu hailgyfrifo ar ôl i'r rheoliadau gael eu diwygio.

## Rheol 85

Mae Rheol 85 yn diogelu rhywfaint neu'r cyfan o'ch buddiannau rhag y gostyngiad arferol mewn taliadau cynnar. I fod â diogelwch Rheol 85, mae'n rhaid eich bod yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar 30 Medi 2006. Mae Rheol 85 yn fodlon os yw eich oedran ar y dyddiad pan fyddwch yn tynnu eich pensiwn ynghyd â'ch aelodaeth o'r Cynllun (mewn blynyddoedd cyfan) yn dod i gyfanswm o 85 mlynedd neu fwy.

Os oes gennych ddiogelwch Rheol 85, bydd hyn yn dal yn berthnasol o Ebrill 2014 ymlaen. Yr unig achlysur lle nad yw'r diogelwch hwn yn berthnasol yn awtomatig yw os ydych yn dewis tynnu eich **pensiwn yn wirfoddol ar neu ar ôl 55 oed a chyn 60 oed <u>heb</u>** ganiatâd eich cyflogwr.

I gael dealltwriaeth fanylach o'ch sefyllfa bersonol, dylech fewngofnodi i 'Fy Mhensiwn Ar-lein' neu gysylltu â'r adran bensiwn yn uniongyrchol.

## Gwerthuso Swyddi a Statws Unffurf

Lle bo gostyngiad mewn cyflog yn digwydd o ganlyniad i ymarferion gwerthuso swyddi neu statws unffurf, gall aelod o'r cynllun ddewis defnyddio cyfartaledd blynyddol y tair blynedd olynol orau o gyflog hyd at 31 Mawrth yn ystod y 13 blynedd olaf o gyflogaeth, at ddibenion cyflog terfynol. Os yw aelodau'r Cynllun am wneud y dewis hwn, mae'n rhaid iddynt benderfynu ar hynny o leiaf fis cyn y dyddiad y daw eu haelodaeth yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i ben. Mae taflen ffeithiau 'Gwerthuso Swyddi a'ch Buddion Pensiwn' ar gael ar y wefan.

## Diwygio Treth

O fis Ebrill 2021, arhosodd y Lwfans Oes ar gyfer pensiynau treth-freintiedig ar £1,073,100 ac roedd i fod i barhau ar y lefel hon tan 2025/26. Dyma gyfanswm gwerth yr holl fuddion pensiwn y gallwch eu crynhoi heb fod treth yn cael ei chodi arnoch am grynhoi gormod o fuddion. Adeg eich ymddeoliad mae'n ofynnol ichi ddatgan yr holl fuddion pensiwn nad ydynt yn rhai'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, sydd yn cael eu talu ichi neu sydd ar fin cael eu talu, fel y gellir asesu eich Lwfans Oes. Fodd bynnag, yng Nghyllideb Mawrth 2023 cyhoeddodd y Canghellor y byddai'r Lwfans Oes yn cael ei ddiwygio o 2023/24 a'i ddileu yn ei gyfanrwydd o 2024/25. Mae rhagor o wybodaeth am sut y gallai'r newidiadau hyn effeithio arnoch ar gael ar wefan HMRC. Cofiwch na all staff yr adain bensiynau roi cyngor ariannol na chyngor personol ynghylch treth.

Byddwch yn cofio o fis Ebrill 2014 y gostyngwyd terfyn y Lwfans Blynyddol i £40,000 ac yn dilyn Cyllideb Mawrth 2023, bydd y terfyn hwn yn cynyddu i £60,000 o fis Ebrill 2023. I gyfrif gwerth unrhyw gynnydd blynyddol yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, mae angen ichi ganfod y gwahaniaeth yng nghyfanswm gwerth unrhyw fuddion a grynhowyd rhwng dau 'gyfnod mewnbwn pensiwn', sef rhwng mis Ebrill a mis Mawrth fel arfer. Gwneir hyn drwy luosi gwerth y cynnydd yn y pensiwn ag 16 ac ychwanegu'r cynnydd yng ngwerth unrhyw gyfandaliad a'r gronfa Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol. Bydd y Datganiad Blynyddol o'ch Buddion, 2023 yn cynnwys rhagor o wybodaeth ynghylch effaith y lwfans blynyddol ar y pensiwn y byddwch yn ei gronni

yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Wedyn mae'n rhaid ychwanegu canlyniad y cyfrifiad hwn at unrhyw gynnydd mewn hawliau pensiwn a allai ddeillio o unrhyw drefniant pensiwn arall sydd gan unigolyn, er mwyn gweld a yw'r terfyn blynyddol wedi'i groesi.

## Dyddiadau Talu Pensiynwr

Eleni, cafwyd cynnydd o 10.1% mewn pensiynau o 10 Ebrill 2023 ymlaen, sy'n cynrychioli'r cynnydd yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr dros y cyfnod o 12 mis hyd at 30 Medi 2022. Fel rheol mae'r cynnydd mewn pensiynau'n berthnasol i bensiynwyr sy'n 55 oed neu'n hŷn, neu sydd wedi ymddeol ar unrhyw oed ar sail salwch neu sy'n derbyn pensiwn eu priod neu bensiwn plentyn. Bydd pensiynwr a ymddeolodd yn ystod y flwyddyn ariannol yn derbyn y gyfran briodol o’r cynnydd.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ebrill 2023 | 28/04/2023 | Hydref 2023 | 31/10/2023 |
| Mai 2023 | 31/05/2023 | Tachwedd 2023 | 30/11/2023 |
| Mehefin 2023 | 30/06/2023 | Rhagfyr 2023 | 22/12/2023 |
| Gorffennaf 2023 | 31/07/2023 | Ionawr 2024 | 31/01/2024 |
| Awst 2023 | 31/08/2023 | Chwefror 2024 | 29/02/2024 |
| Medi 2023 | 29/09/2023 | Mawrth 2024 | 28/03/2024 |

## Fy Mhensiwn Ar-lein

**Beth fydd Fy Mhensiwn Ar-lein yn caniatáu imi wneud?**

P'un a ydych yn aelod gweithredol o'r Cynllun, yn aelod gohiriedig neu'n bensiynwr, gallwch weld eich manylion sylfaenol a'u diweddaru, cyrchu ffurflenni perthnasol a derbyn pob cyhoeddiad yn ddiymdroi, gan gynnwys y Datganiad Blynyddol o'ch Buddion, newyddlenni a ffeithlenni. Os ydych yn aelod gweithredol, byddwch yn gallu cyfrifo'ch buddion ar adeg sy'n gyfleus ichi er mwyn cynllunio'ch ymddeoliad yn ymarferol.

Os ydych yn bensiynwr, byddwch yn gallu gweld manylion eich pensiwn, gwneud newidiadau o ran manylion eich cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu neu eich cyfeiriad, gweld eich cofnod taliadau a'ch côd treth, eich dyddiadau talu, slipiau talu, datganiadau P60 a'ch datganiadau ynghylch y cynnydd yn y pensiwn.

**Sut ydw i'n cofrestru ar gyfer Fy Mhensiwn Ar-lein?**

Mae'n haws nag erioed i gofrestru â Fy mhensiwn ar-lein, y cyfan sydd angen ei wneud yw clicio'r botwm yma.

# Cysylltu â'r Gronfa

## Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol

Chris Moore
CMoore@sirgar.gov.uk

## Buddsoddiadau Pensiwn

Anthony Parnell
Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn
AParnell@sirgar.gov.uk

Martin Owens
Swyddog Buddsoddiadau Pensiwn
MSOwens@sirgar.gov.uk

Jason Williams
Cyfrifydd Cynorthwyol
JasWilliams@sirgar.gov.uk

Tina Leigh
Technegydd Cyfrifyddu
TLeigh@sirgar.gov.uk

## Gweinyddu Pensiynau

Kevin Gerard
Rheolwr Pensiynau
KGerard@sirgar.gov.uk

Martin Morgan
Dirprwy Reolwr Pensiynau
MMorgan@sirgar.gov.uk

Jessica Turnbull-Guy
Swyddog Cyfathrebu a Hyfforddi
JTurnbull-Guy@sirgar.gov.uk

or alternatively - pensiynau@sirgar.gov.uk

**Ymholiadau ynghylch Aelodau a Buddion**

| | |
|---|---|
| Cyfenw A – G | 01267 224937 |
| Cyfenw H – O | 01267 224687 |
| Cyfenw P – Z | 01267 224048 |